## CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd dros fideo gynadledda ddydd Mawrth, 1 Chwefror 2022 am 10.00 am.

### YN BRESENNOL

**Yn Cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych**

Y Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Meirick Davies, Tony Flynn, Cheryl Williams ac Emrys Wynne

**Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol a Chredoau Athronyddol Anghrefyddol**

Dominic Oakes, Jennie Downes (Is-Gadeirydd) a Collette Owen

**Yn Cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon**

Leah Crimes, Sarah Griffiths a Katie Mason

### HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol (PL), Prif Reolwr Addysg (JB) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ a RTJ [Gweinyddwr Zoom])

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Rachel Flynn

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

**Materion yn Codi -**

Tudalen 1 - Yn Bresennol - roedd Cynrychiolydd Dyneiddiol wedi cael ei benodi i'r CYSAG a chytunwyd i newid y rhestr o aelodau presennol i “Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol a Chredoau Athronyddol Anghrefyddol” yn y dyfodol.

Tudalen 9 - Eitem 9: Adroddiad Blynyddol Drafft CYSAG 2020-21 - roedd yr adroddiad wedi cael ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd AG wybod am yr angen i CYSAG ddiwygio ei gyfansoddiad i adlewyrchu'r newidiadau i gynnwys cynrychiolaeth Credoau Athronyddol Anghrefyddol ac hefyd mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru a'r Maes Llafur Cytunedig.   Gofynnodd y Cadeirydd i'r mater gael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2022.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021 fel cofnod cywir.*

## 5 CWRICWLWM CYMRU

Croesawodd y Cadeirydd y Prif Reolwr Addysg i'w gyfarfod cyntaf o'r CYSAG.

Cyflwynodd y Prif Reolwr Addysg yr eitem ar Gwricwlwm newydd Llywodraeth Cymru a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2022.   Roedd yn ddiolchgar i'r Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad a'i eglurhad o'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM) sydd wedi cael eu rhyddhau'n ddiweddar.

Eglurodd yr Ymgynghorydd AG bod angen cynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig er mwyn paratoi Maes Llafur Cytunedig i'w fabwysiadu gan yr awdurdod addysg lleol.   Y bwriad oedd cofnodi a rhannu'r cyflwyniad gyda chyfranogwyr er mwyn llywio'r broses honno.   Yn ogystal â chynrychiolwyr CYSAG, gobeithiwyd y byddai gymaint o athrawon a phosibl yn gallu mynychu'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a oedd wedi'i threfnu ar gyfer 14 Mawrth 2022.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd AG gyflwyniad a oedd yn cynnig trosolwg o'r Cwricwlwm i Gymru ac eglurhad o'r canllawiau CGM.

Roedd y meysydd a oedd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad cynhwysfawr yn cynnwys -

- gofynion y ddeddfwriaeth cwricwlwm ac asesu
- cyflwyniad i'r chwe maes dysgu a phrofiad a manylion pellach am yr iaith a ddefnyddir - 'datganiadau o'r hyn sy'n bwysig', 'egwyddorion cynnydd', disgrifiadau dysgu' a 'chynllunio eich cwricwlwm'
- cyfeiriadau penodol at y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig ar gyfer y maes Dyniaethau a oedd yn cynnwys cyd-destun, sgiliau, gwybodaeth a chysyniadau i'w datblygu
- dolenni i dudalennau we gan gynnwys crynodeb o ddeddfwriaeth gyda deddfwriaeth benodol yn ymwneud â chanllawiau CGM a sut y gellid eu mabwysiadu mewn Maes Llafur Cytunedig
- y newid o addysg grefyddol i grefydd, gwerthoedd a moeseg er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach a chynnwys credoau anghrefyddol gan gynnwys dyneiddiaeth, anffyddiaeth a seciwlariaeth
- newidiadau deddfwriaethol sy'n llywodraethu'r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig a CYSAG i adlewyrchu credoau crefyddol a chredoau athronyddol anghrefyddol

- nodau'r Maes Llafur Cytunedig a'r canllawiau CGM a gafodd eu hysgrifennu fel sail i'r Maes Llafur Cytunedig drwy weithio ar y cyd
- gofynion cyfreithiol ar gyfer Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig a chwestiynau i'w hystyried ganddyn nhw a CYSAG.
- gwaredu'r hawl i dynnu'n ôl o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru
- pwrpas y canllawiau CGM sef darparu cefnogaeth ychwanegol ar sut y gellid dysgu CGM yn y maes Dyniaethau a'r meysydd perthnasol eraill
- y cyd-destun datblygiad ysbrydol o fewn CGM a oedd yn parhau i fod yn agwedd allweddol
- cynllunio'r cwricwlwm ar gyfer CGM, gan gynnwys: themâu trawsbleidiol, sgiliau trawsbynciol, sgiliau sy'n hanfodol i'r pedwar diben, datganiadau o'r hyn sy'n bwysig, cysyniadau CGM a'r lens CGM.
- dilyniant dysgwyr a siwrneiau dysgu mewn perthynas â CGM gydag enghreifftiau dangosol, a
- phwyntiau i ysgolion/lleoliadau eu hystyried wrth gynllunio eu cwricwlwm ar gyfer CGM.

Wrth gloi, fe wnaeth yr Ymgynghorydd AG gydnabod ei fod wedi cyflwyno cyfoeth o wybodaeth yn y cyflwyniad, ond amlygodd bod y Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau CGM yn llawer mwy cynhwysfawr.  Byddai'r cyflwyniad a'r sleidiau PowerPoint yn cael eu rhannu gydag aelodau CYSAG ac ysgolion er mwyn rhoi cyfle i bawb ystyried y cynnwys yn eu hamser eu hunain.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- roedd y canllawiau CGM yn ddogfen gynhwysfawr ac roedd dolen i'r wefan berthnasol wedi cael ei chynnwys ar y rhaglen er mwyn rhoi cyfle i aelodau gael golwg dros y wybodaeth yn eu hamser eu hunain; er bod y cyflwyniad yn hir, llwyddwyd i grynhoi elfennau o'r canllawiau er hwylustod.
- cadarnhawyd mai'r cyfieithiad Cymraeg swyddogol ar gyfer 'Religion, Vales and Ethics Guidance' oedd 'Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg' fel y nodwyd yn y cyflwyniad.
- cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at yr ymgynghoriad DU a oedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar wahardd yr hawl i broselytio a'r goblygiadau posibl ar gyfer addysg grefyddol.  Nid oedd yr Ymgynghorydd AG yn ymwybodol o'r cynigion ond rhoddodd wybod bod deddfwriaeth yng Nghymru i ddiogelu addysg Gristnogol o fewn y cwricwlwm presennol, a diolchodd i'r Cynghorydd Davies am dynnu ei sylw at hyn.
- cafwyd trafodaeth ynghylch diben y canllawiau i fod yn amlblwyfol ac addysgu am gredoau amrywiol ar draws Cymru, yn hytrach na gwthio syniadau ffydd a dweud wrth ddisgyblion beth i gredu, ac er y bydd gan ysgolion eglwys ddiben gwahanol mewn perthynas â CGM a'i ddarpariaeth, byddai'n rhaid sicrhau bod elfen amlblwyfol er mwyn adlewyrchu'r amrywiaeth o bobl a chredoau yng Nghymru.
- roedd y ddeddfwriaeth a oedd yn sail i'r canllawiau CGM yn nodi'n glir bod yn rhaid adlewyrchu mai natur crefyddol bennaf Cymru yw Cristnogaeth yn ogystal â rhoi sylw i'r prif grefyddau eraill a chredoau athronyddol anghrefyddol, felly roedd ymdeimlad o hanes Cymru ynghlwm â'r gwersi.

- cyfrifoldeb yr ysgolion oedd sicrhau bod disgyblion yn ymwybodol o ddimensiynau moesoldeb ac ysbrydolrwydd ac ystyriwyd bod siwrneiau dysgu CGM yn caniatáu i ddisgyblion archwilio eu ffydd a'u credoau eu hunain, gyda'r rhyddid i wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau personol eu hunain.
- ni fyddai angen yr hawl i beidio ag astudio AG mwyach yn sgil y ffordd y byddai CGM yn cael i ddysgu drwy'r cwricwlwm newydd
- eglurwyd bod gan Addoli ar y Cyd ei gyfres ei hun o gyfreithiau a syniadau a oedd ar hyn o bryd yn seiliedig ar fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o gymeriad Cristnogol
- rhoddodd cynrychiolwyr athrawon wybod am y cynlluniau a'r datblygiadau yn eu hysgolion eu hunain mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd a chroesawyd y cyflwyniad a oedd yn cynnig eglurhad o addysg CGM yn y dyfodol a diolchwyd i'r Ymgynghorydd AG am ei waith caled.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd AG am ei gyflwyniad diddorol a chynhwysfawr a oedd wedi derbyn ymateb da gan CYSAG, a nododd y byddai ysgolion yn elwa'n fawr o'r cyflwyniad wrth iddynt ddatblygu'r cwricwlwm newydd ac addysg CGM.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a nodi'r cyflwyniad gan yr Ymgynghorydd AG mewn perthynas â'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.*

## 6 CEFNOGI'R AWDURDOD LLEOL I FABWYSIADU MAES LLAFUR CYTUNEDIG

Eglurodd yr Ymgynghorydd AG, yn dilyn ymlaen o'r eitem ddiwethaf, bod gofyn i awdurdod lleol Sir Ddinbych fabwysiadu Maes Llafur Cytunedig, ac er mwyn cefnogi'r awdurdod lleol gyda hynny, argymhellwyd y dylai CYSAG gynghori'r awdurdod lleol i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig.

Rhoddwyd gwybod i CYSAG bod trefniadau dros dro wedi'u gwneud i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig am 10.00am ddydd Llun, 14 Mawrth 2022 a gobeithiwyd y byddai gymaint o athrawon â phosibl yn gallu mynychu yn ogystal ag aelodau CYSAG; byddai recordiad o'r cyflwyniad yn cael ei rannu gydag ysgolion ymlaen llaw. Roedd yr Ymgynghorydd AG yn credu y byddai'r canllawiau CGM presennol yn bodloni'r cwricwlwm newydd ac y byddai modd eu mabwysiadu fel y Maes Llafur Cytunedig. Rhybuddiodd hefyd yn erbyn gwneud gormod o addasiadau i'r canllawiau CGM o ystyried yr hyfforddiant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar y canllawiau a fyddai fel arall yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol; camau cyfreithiol posibl o ystyried bod y canllawiau CGM wedi bod drwy'r prosesau sicrhau ansawdd, ac roedd y canllawiau hefyd yn cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru gan gymryd i ystyriaeth y Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill a chamau cynnydd. Roedd yn credu y dylid ystyried y pwyntiau hynny'n ofalus yn y Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig wrth benderfynu ar sut i gynghori'r awdurdod lleol o ran y Maes Llafur Cytunedig.

Roedd CYSAG yn cynnwys tri phwyllgor gwahanol ac yn cynrychioli (1) Enwadau Crefyddol a Chredoau Athronyddol Anghrefyddol (2) Cymdeithasau Athrawon, a (3) yr Awdurdod Lleol, a chyfeiriodd yr Ymgynghorydd AG at y gofyniad i bob pwyllgor bleidleisio ar wahân ar argymhellion yr adroddiad. Pleidleisiodd y pwyllgor yn unfrydol -

***O BLAID*** *cynghori'r awdurdod lleol i gynnal Cynhadledd Maes Llafur Cytunedig.*

## 7 CCYSAGC

Rhoddodd yr Ymgynghorydd AG wybod nad oedd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 ar gael i'w rhannu eto, ond noddodd bod y cyfarfod wedi canolbwyntio ar y canllawiau CGM yn bennaf. Cyfeiriodd aelodau at wefan Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru (CCYSAGC) https://wasacre.org.uk/ a oedd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol, gan gynnwys rhaglenni a chofnodion o gyfarfodydd blaenorol, yn ogystal â llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAG sy'n adlewyrchu newidiadau a gwybodaeth deddfwriaethol ddiweddar mewn perthynas â gwaith CYSAG a CCYSAGC. Nodwyd bod dyddiad cyfarfod nesaf CCYSAGC i'w gadarnhau.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar gan yr Ymgynghorydd AG.*

## 8 DYDDIAD CYFARFODYDD NESAF

Cadarnhawyd dyddiadau cyfarfodydd CYSAG 2022 fel a ganlyn:

23 Mehefin (dydd Iau) a 19 Hydref (dydd Mercher).

I gloi diolchodd y Cadeirydd i'r Ymgynghorydd AD am ei waith caled yn cefnogi'r CYSAG a diolchodd hefyd i'r aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am**.**